# Datganiad Blynyddol ar Daliadau Staff Uwch ym mlwyddyn ariannol 2022–23

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â 'Chod Taliadau Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC) ar gyfer aelodau Staff Uwch mewn Addysg Uwch' (Mehefin 2018).

**Ynglŷn â Thaliadau Staff Uwch yn ystod 2022–23**

Ar 21 Medi 2018, cafodd Fframwaith Cydnabyddiaeth Staff Uwch i'r Brifysgol ei gymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r fframwaith yn disgrifio safbwynt y sefydliad ynglŷn â thaliadau aelodau'r staff uwch. Caiff ei adolygu bob dwy flynedd; fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2021 fel yr amlinellir uchod.

Gellir gweld copi yn: https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/corporate-information/remuneration/.

Fel y nodwyd yn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Staff Uwch, mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor i gytuno ar faterion sy'n gysylltiedig â thaliadau'r "Is-Ganghellor; y Dirprwy Is-Gangellorion; a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol".

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn gweithredu mewn amgylchiadau cystadleuol ac mae'n awyddus i ddenu a chadw'r staff gorau posib. Serch hynny, wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl y staff uwch, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Taliadau ystyried i ba raddau y gellir fforddio unrhyw benderfyniadau o'r fath, gan gyfeirio at y data meincnodi i Brifysgolion tebyg.

Yn hyn o beth, seiliwyd y data meincnodi ar Arolwg Blynyddol Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a Cholegau (UCEA) o Daliadau Staff Uwch ac Arolwg Blynyddol y CUC o Gyflogau Is-Gangellorion.

Mae pob aelod o staff uwch y Brifysgol yn awtomatig yn derbyn unrhyw ddyfarniadau tâl 'costau byw' a ddarperir gan y Brifysgol i weithwyr ar y raddfa gyflog sengl y cytunwyd arni'n genedlaethol.

Yn yr un modd â phob gweithiwr arall, mae'n ofynnol i staff uwch y Brifysgol gymryd rhan ym mhroses arfarnu Cynllun Cyfraniad Effeithiol y sefydliad. Yn achos yr Is-Ganghellor, Cadeirydd y Cyngor sy'n cynnal yr arfarniad blynyddol. I aelodau eraill y staff a ddaw o fewn cwmpas y Pwyllgor Taliadau, cynhelir yr arfarniad gan yr Is-Ganghellor, sy'n rheolwr llinell arnynt.

Cyflwynir canlyniadau'r arfarniadau hyn wedyn i'r Pwyllgor Taliadau ac maent yn sail i unrhyw argymhellion i'r Pwyllgor Taliadau yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau i gyflogau'r uwch staff dan sylw.

Ers 07 Tachwedd 2019, mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiad blynyddol yn crynhoi perfformiad y sefydliad ar ddiwedd y flwyddyn academaidd flaenorol o'i gymharu â Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor i fonitro'r dull o weithredu'r Cynllun Strategol sefydliadol. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad am Ddangosyddion Perfformiad 2020–21 yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2022. Mae derbyn yr adroddiad hwn yn rhoi cyd-destun pellach ar gyfer ystyried unrhyw newidiadau i daliadau staff uwch.

**Taliadau i'r Is-Ganghellor**
Gwelir isod y taliadau i'r Is-Ganghellor ym mlwyddyn academaidd 2020–21, o'i gymharu â'r taliadau yn y flwyddyn flaenorol:

| | 2022-2023 | 2021-2022 |
|---|---|---|
| Cyflog | £245,000 | £236,000 |
| Cyflog cysylltiedig â pherfformiad | £0 | £0 |
| Buddion[1] | £22,000 | £22,000 |
| **Is-gyfanswm** | **£267,000** | **£258,000** |
| Cost pensiwn | £15,000 | £13,000 |
| **Cyfanswm** | **£282,000** | **£271,000** |

Am y cyfnod 2022–23, lluosrif cyflog enillion yr Is-Ganghellor (£267,000) o'i gymharu ag enillion canolrifol yr holl staff (staff cyfwerth ag amser llawn, ac eithrio Gweithwyr Aber a staff Wrth Gefn: £36,333) oedd 1:7.35.

Er mwyn gallu cymharu, lluosrif cyflog enillion yr Is-Ganghellor o'i gymharu ag enillion canolrifol yr holl staff (staff cyfwerth ag amser llawn, ac eithrio Gweithwyr Aber a staff Wrth Gefn) am 2020-21 oedd 1:7.29.

Mae'r Is-Ganghellor yn cael ymgymryd â gwaith allanol gyda phartïon eraill y tu allan i'r Brifysgol, gan gynnwys swyddi Cyfarwyddwr neu aelodaeth o Fyrddau, gyda chaniatâd ysgrifenedig y Cadeirydd. Cytunir fesul achos ynglŷn â chael cadw unrhyw incwm a gynhyrchir o gyrff allanol. Nid yw'r Is-Ganghellor yn derbyn dim incwm ychwanegol gan y cyrff allanol y mae'n gwasanaethu arnynt.

Yn yr un modd â'r holl weithwyr eraill, mae'r Is-Ganghellor yn cael hawlio ad-daliad ar wariant personol yn unol â gweithdrefnau Ariannol a Theithio fel y'u cymeradwywyd gan y Brifysgol. Mae pob hawliad o'r fath a wneir gan yr Is-Ganghellor yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd y Cyngor.

[1] Yn cynnwys y buddion trethadwy mewn ffurfiau eraill sy'n ymwneud â llety ym Mhlas Penglais, lle mae'n ofynnol i'r Is-Ganghellor fyw.